

Llythyrau a Chyfarfodydd

Ysgrifennu Llythyr neu E-bost

Gall ysgrifennu llythyr fod yn ffordd effeithiol o dynnu sylw at fater, a gallai berswadio person i ymuno â'ch ymgyrch. Os ydych chi'n ysgrifennu at wleidydd gallen nhw godi'r mater yn Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan (Westminster), yn Senedd Cymru, neu'r Cyngor Lleol.

Efallai bydd eich grwp hefyd am ddefnyddio'r llythyr yn gyfle i ofyn am gyfarfod gyda'r person rydych chi eisiau dylanwadu, neu eu gwahodd nhw i ddigwyddiad. Dyma ganllaw ar gyfer ysgrifennu llythyr a threfnu cyfarfod:

- Dod o hyd i'r person cywir.** Mae'n gallu bod yn anodd gwybod pwy yw'r person cywir i gysylltu â nhw. Mae rhai materion yng ngofal Aelodau'r Senedd yn San Steffan. Mae rhai'n cael eu cadw yn Senedd Cymru, felly Aelodau Senedd Cymru sy'n gyfrifol amdany'n nhw. Ond mae Cyngorau lleol hefyd yn gyfrifol am rai materion lleol. Mae rhagor o wybodaeth [ar ein taflen ffeithiau](#), a gallwch chi ofyn am help gan oedolyn cefnogol.
- Ymchwilio.** Ymchwiliwch i farn y person ar wahanol faterion. Yna gallwch chi ymdrin â'r mater mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn cytuno â'u pryderon. Yn achos Aelodau Senedd San Steffan, gallwch chi weld eu cofnodion pleidleisio yma: <https://www.theyworkforyou.com/>, a bydd digon o enghreifftiau ohonyn nhw'n siarad ar-lein yn y cyfryngau. Cofiwch gyfeirio [at y daflen ffeithiau](#) pan fyddwch chi'n ymchwilio, a sicrhau eich bod chi'n dod o hyd i ffynonellau gwybodaeth da.
- Cynllunio.** Gallech chi ddefnyddio'r cynllun yma ar gyfer eich llythyr:
 - Paragraff 1: Nodwch y mater rydych chi am ei weld yn newid.
 - Paragraff 2: Dywedwch pam y dylai newid, gan ddefnyddio ffeithiau a barn.
 - Paragraff 3: Esboniwch unrhyw atebion neu beth hoffech chi iddyn nhw wneud.

AWGRYM GWYCH: cofiwch anfon copi o'ch llythyr at y Comisiynydd Plant ('cc'), fel bod Sally'n gwybod am eich ymgyrch.

Gallwch chi ofyn i un o'ch cyfoedion neu oedolyn edrych ar eich llythyr. Hefyd mae templedi ar gael ar-lein os ydych chi'n ansicr ble i ddechrau neu eisiau seilio eich llythyr ar enghraifft dda



Trefnu Cyfarfod

Bydd hyn yn eich helpu eich grwp i wahodd gwleidydd neu rhywun arall rydych chi eisiau dylanwadu i gyfarfod. Bydd hyn hefyd yn eich helpu os trefnwch chi gyfarfodydd gyda phobl yn eich cymuned, er enghraifft, **Pennaeth eich Ysgol** neu aelodau o **Gorff Llywodraethu ysgol, arweinydd cymunedol** neu **arweinydd busnes**.

1. **Gofalwch eich bod chi'n ddiogel.** Rhowch wybod i oedolyn rydych chi'n trystio a thrafodwch y cyfarfod gyda nhw cyn i unrhyw gyfarfod ddigwydd.
2. **Pryd a ble.** Os ydy'ch grwp yn gwahodd person i gyfarfod, sicrhewch fod y cyfarfod yn digwydd rhywle diogel, ac ei fod e'n hawdd ac yn ddiogel i'w deithio ato. Gwnewch yn siwr eich bod chi'n trafod gydag oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw. Gallen nhw fynd gyda chi.
3. **Byddwch yn strategol.** Penderfynwch beth yw'r brif neges rydych chi eisiau ei throsglwyddo am y mater, a sut byddwch chi'n perswadio'r cynrychiolydd i greu newid. Byddwch chi am sicrhau eich bod chi'n gwybod cymaint â phosibl am y mater er mwyn gallu deall effaith newidiadau. Er enghraifft, os ydych chi'n gwybod y byddai agor cyfleuster ynni gwyrdd yn eich ardal yn creu 500 o swyddi newydd, gallwch chi ddefnyddio hynny fel ymateb os bydd cynrychiolydd yn dadlau yn erbyn cau pwerdy anghynaliadwy oherwydd bydd 300 o swyddi'n cael eu colli.
4. **Defnyddiwch ddigwyddiad.** Oes yna ddigwyddiad ymgyrchu y gallech chi ei drefnu neu ei ddefnyddio, er enghraifft gwasanaeth, arddangosfa gelf neu berfformiad cerddorol? Allech chi wahodd y person a chyfarfod gyda nhw wedyn?
5. **Cynllunio rolau.** Sicrhewch fod eich grwp yn cytuno ar eich rolau a phwy sy'n dweud beth ymlaen llaw, er mwyn bod mor drefnus â phosibl. Efallai byddwch chi am ethol cadeirydd. Cofiwch wrando a chydabod eu pwyntiau yn hytrach na phregethu arnyn nhw am beth dylen nhw wneud, byddwch chi'n fwy llwyddiannus os gallwch chi eu perswadio, fel eu bod nhw'n cytuno â chi.
6. **Cymryd cofnodion.** Mae cofnodion yn nodi beth sy'n cael ei drafod neu ei gytuno. Penderfynwch pwy fydd yn cymryd y cofnodion ac yn nodi popeth sy'n digwydd.